# Canllaw i aelwydydd ynghylch pryd i gael prawf ar gyfer COVID-19 ac am ba hyd y dylid hunanynysu

Mae'r senarios canlynol yn seiliedig ar deulu o bedwar yn byw yn yr un cartref.

**Oedolyn 1**
**Oedolyn 2**
**Plentyn 1**
**Plentyn 2**



## SENARIO 1

**Mae Oedolyn 1 yn cael prawf ac mae'n bositif.**

Mae'n rhaid i Oedolyn 1 hunanynysu am 10 niwrnod.
Mae'n rhaid i bawb arall yn y cartref hunanynysu hefyd am 10 diwrnod.

## SENARIO 2

**Mae Plentyn 1 yn dangos un o symptomau nodweddiadol COVID-19.**

Mae'n rhaid i Blentyn 1 hunanynysu am 10 niwrnod (neu'n hirach os oes angen) hyd nes ei fod yn heini ac yn iach.
Mae'n rhaid i bawb arall hunanynysu hefyd am 10 diwrnod.

Os yw canlyniad prawf Plentyn 1 yn negatif, yna bydd y cyfnod hunanynysu yn dod i ben ar gyfer pawb arall yn y cartref ar unwaith.

Os na chafwyd canlyniad a bod y symptomau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn symptomau COVID-19, yna dylid cydymffurfio â'r cyfnodau hunanynysu a'r meini prawf heini ac iach.

## SENARIO 3

**Mae Oedolyn 2 wedi profi'n bositif ac mae'r cartref cyfan yn hunanynysu. Mae Plentyn 1 yn cael prawf yn ddiweddarach ac mae'r canlyniad yn negatif.**

Mae'n rhaid i Oedolyn 2 hunanynysu am 10 niwrnod (neu'n hirach os oes angen) hyd nes ei fod yn heini ac yn iach.
Mae'n rhaid i bawb arall hunanynysu hefyd am 10 diwrnod.

Mae canlyniad negatif i brawf dim ond yn golygu nad ydych wedi eich heintio ar yr adeg y gwnaethpwyd y prawf – mae'r cyfnod hunanynysu o 10 diwrnod ar gyfer cysylltiadau i achos positif yn caniatáu ar gyfer cyfnod o drosglwyddo, cael yr haint a gwella.

## SENARIO 4

**Mae Plentyn 1 wedi bod i barti ac nid oes ganddo symptomau. Mae'r cynllun Profi, Olrhain, Diogelu yn nodi bod achos positif yn y parti a oedd wedi'i heintio ar y pryd, ond nid oedd yn dangos symptomau. Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn nodi Plentyn 1 fel un o gysylltiadau'r person heintiedig.**

Mae'n rhaid i Blentyn 1 hunanynysu am 10 diwrnod ar ôl y parti (y pwynt lle y cafwyd cysylltiad) – rhoddir gwybod iddynt am hyn drwy'r cynllun Profi, Olrhain, Diogelu.
Gall pawb arall barhau yn ôl yr arfer.

Gall Plentyn 1 ddatblygu symptomau yn ystod y cyfnod hunanynysu – dylai drefnu prawf. Os yw'r prawf yn negatif, mae'n rhaid iddo barhau i hunanynysu drwy gydol y cyfnod.

Os yw'n bositif, rhaid i bawb - y plentyn a gweddill y cartref - hunanynysu am 10 diwrnod wedi i'r symptomau ddechrau.

sirgar.llyw.cymru/cadwsirgarynddiogel

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council